
Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi ar gyfer a chytuno i ymgymryd â gweithrediadau gwaith coed brys. Mae'r safon yn cynnwys paratoi a gwneud gwaith coed argyfwng neu frys yn ddiogel, fel arfer o ganlyniad i fethiant coeden, damwain cerbyd neu argyfwng yn ymwneud â'r tywydd.

Mae'n rhaid i'r defnydd o offer a'r holl weithrediadau fodloni'r canllawiau a roddwyd gan y swyddog cyfrifol, e.e. cynrychiolydd y frigâd dân neu swyddog cleientiaid, yn ogystal â gofynion y gyfraith, codau ymarfer presennol a chanllawiau'r diwydiant.

Caiff y gwaith sydd ei angen ei bennu gan gymhlethdod y sefyllfa.

Efallai mai eich cyfrifoldeb chi fydd systemau rheoli traffig neu gellir eu gweithredu gan yr Awdurdod Priffyrdd a/neu'r heddlu.

Mae'n ofyniad isafswm bod yn rhaid i dîm gweithrediadau gwaith coed brys fod â chyfarpar digonol a meddu ar y cymwysterau a'r profiad priodol.

Mae'n rhaid i'ch gwaith gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer perthnasol wrth wneud y gwaith hwn.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. dewis a gweithredu dulliau gwaith priodol, yn unol â'r peryglon a aseswyd
2. dewis a defnyddio'r offer amddiffynnol personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith
3. paratoi cynlluniau wrth gefn ar gyfer argyfyngau gwaith coed gwahanol
4. paratoi'r cerbyd(au) ymateb mewn argyfwng rhag ofn bydd argyfwng
5. paratoi pecyn ymateb i argyfwng rhag ofn bydd argyfwng
6. gwneud asesiad cychwynnol o'r safle, asesu'r peryglon i gyd a gosod rheolyddion addas
7. asesu'r safle am dystiolaeth o gyfleustodau o dan y ddaear ac uwchben a'r perygl o niwed i wasanaethau, a allai helpu i ffurfio'r system waith ddiogel
8. cytuno ar a sefydlu'r llinellau gorchymyn ar y safle
9. cytuno ar a sefydlu cynllun brys a dull gwaith sy'n briodol i ddiogelwch y rheiny sydd yn gysylltiedig, y safle a chymhlethdod y sefyllfa
10. cytuno ar a sefydlu system gyfathrebu effeithlon ac effeithiol gyda'r holl wasanaethau eraill ar y safle, yn arbennig gyda'r swyddog cyfrifol
11. sicrhau bod systemau rheoli traffig priodol yn eu lle i ddiogelu aelodau o'r tîm gwaith coed, defnyddwyr eraill y safle a'r cyhoedd
12. cadarnhau bod y gwasanaethau brys wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol cyn cynnal gweithrediadau gwaith coed
13. sicrhau bod personél yn gymwys ac yn brofiadol i gynnal gweithrediadau gwaith coed brys
14. paru sgiliau a phrofiad personél i weithrediadau gwaith coed a chymhlethdod y sefyllfa
15. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill yr holl amser, yn unol â deddfwriaeth berthnasol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. pwysigrwydd ymateb i fyrder y gwaith coed brys
2. y sefyllfaoedd pan na fyddai'n bosibl nac yn briodol ymateb i'r argyfwng gwaith coed
3. yr offer amddiffynnol personol (PPE) priodol, offer a chyfarpar eraill sydd eu hangen ar gyfer gweithriad gwaith coed brys
4. pwysigrwydd paratoi'r pecyn ymateb i argyfwng cyn unrhyw argyfwng
5. ble a sut i ymchwilio rhybudd ymlaen llaw o argyfyngau, fel adroddiadau tywydd
6. sut i ddefnyddio'r tîm ymateb i argyfwng yn effeithlon ac yn effeithiol
7. sut i adnabod peryglon ac asesu'r peryglon sy'n gysylltiedig â gweithrediadau gwaith coed brys
8. sut i adnabod presenoldeb ac arwyddocâd cyfleustodau
9. sut i sefydlu cynlluniau a dulliau gwaith brys
10. sut i sicrhau safleoedd ar gyfer gweithio diogel ac effeithiol, yn cynnwys lleoliad a safle cywir arwyddion rhybudd a rheolyddion mynediad
11. pwysigrwydd cytuno i a sefydlu systemau cyfathrebu effeithlon ac effeithiol
12. sut i gynnal systemau cyfathrebu effeithiol
13. â phwy i gysylltu os nad yw'n bosibl ymateb i argyfwng gwaith coed
14. y dulliau gwaith i sicrhau diogelwch personél gwaith coed ar y safle
15. sut y gall cymhlethdod y sefyllfa effeithio ar weithrediadau gwaith coed
16. lefelau gwahanol argyfyngau a'r adnoddau sy'n ofynnol
17. sut i flaenoriaethu argyfyngau
18. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol, iechyd a diogelwch a chodau ymarfer perthnasol

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Paratoi ar gyfer argyfyngau yn y ffyrdd canlynol:

- llenwi gyda thanwydd a gwirio'r cerbyd
- paratoi a gwirio offer gwaith coed
- llwytho'r offer sydd ei angen ar gyfer gweithrediadau gwaith coed brys

Datblygwyd gan	Lantra
Dyddiad cymeradwyo	28 Chwef 2017
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Ion 2021
Dilysrwydd	Etifeddiaeth
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	LANTw17
Galwedigaethau perthnasol	Coedyddiaeth a choedwigaeth
Cyfes/Set	Gwaith coed
Geiriau Allweddol	argyfwng; gwaith coed; cynllunio; offer
